**Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Adroddiad ar Brif Ffrydio Cynaliadwyedd mewn Portffolios Gweinidogol – 10 mlynedd o Ddyletswydd Statudol**

**Atodiad i ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru**

1. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Brif Ffrydio Cynaliadwyedd mewn Portffolios Gweinidogol – 10 mlynedd o Ddyletswydd Statudol. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor ataf ar 12fed Tachwedd i ofyn am y newyddion diweddaraf ar yr ymateb hwn.

2. Mae'r papur hwn yn atodiad, felly, i ymateb gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae paragraffau 11-139 o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgrifio'r camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi datblygu cynaliadwy ym mhob portffolio Gweinidogol. Mae'r atodiad hwn yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am y wybodaeth yn y paragraffau hyn.

<u>Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai</u>

**Datblygu Cynaliadwy**

3. Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ychwanegol gennym ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy yn y trydydd sector, ac yn benodol sut y gall y sector hwnnw fabwysiadu datblygu cynaliadwy fel ei egwyddor drefnu ganolog. Bwriedir cynnal digwyddiad ymgysylltu terfynol ar ddatblygu cynaliadwy ym mis Ionawr 2010.

4. Byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy ar gyfer y cyfnod 2008-09 yn fuan.

**Strategaeth Amgylcheddol**

5. Ar 18fed Tachwedd lansiais yr Adroddiad Blnyddol ar Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a phob un o'n partneriaid o ran cymryd camau a fydd yn cyfrannu at y canlyniadau amgylcheddol a nodwyd gennym yn ein Strategaeth Amgylcheddol. Am y tro cyntaf, cyflwynwyd adroddiad ar sut yr ydym ni, fel Llywodraeth y Cynulliad, wedi ystyried y ddyletswydd bioamrywiaeth o dan Adran 40(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried diben diogelu bioamrywiaeth yn yr hyn a wnawn.

**Cynllunio**

6. Rydym yn parhau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy fel un o amcanion craidd polisi cynllunio yng Nghymru. Cyhoeddwyd Datganiad Polisi

Cynllunio Interim newydd gan y Gweinidog ym mis Mai 2009 a nododd bolisi cynllunio cenedlaethol sy'n disgwyl i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yng Nghymru gyrraedd safon ofynnol ar gyfer adeiladau cynaliadwy o 1af Medi 2009. Pennwyd hyn ar Lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy ar gyfer cartrefi newydd a safon 'Da Iawn' BREEAM ar gyfer cynigion annomestig, a cheir disgwyliadau ychwanegol o ran lleihau carbon.

7. Ym mis Mehefin 2009 cyflwynwyd deddfwriaeth i wneud datganiadau dylunio yn orfodol ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio yng Nghymru. Mae datganiadau dylunio yn ddull defnyddiol o sicrhau bod ansawdd gwaith dylunio a goblygiadau datblygiadau newydd o ran cynaliadwyedd yn cael eu nodi'n glir gyda chynigion cynllunio a chynigion adeiladau rhestredig.

**Gwastraff**

8. Ar 3 Tachwedd cyhoeddais ein bod yn bwrw ymlaen â'n cynigion i gyflwyno tâl ar fagiau siopa untro cyn yr etholiadau nesaf i'r Cynulliad yn 2011. Rydym am leihau nifer y bagiau siopa untro a gymerir i ffwrdd o siopau bob blwyddyn yng Nghymru yn sylweddol ac annog defnyddwyr i newid eu hymddygiad a defnyddio nwyddau mewn modd mwy cynaliadwy. Rydym hefyd am leihau'r defnydd a wneir o adnoddau a hyrwyddo mesurau i leihau/atal gwastraff.

9. Byddaf yn ymgynghori ar gynigion wedi'u mireinio yng Ngwanwyn 2010. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys rheoliadau drafft ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

10. Rydym wedi sicrhau arian ychwanegol ar gyfer y rhaglen seilwaith sy'n ymwneud â threulio anerobig o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol. Mae'r buddsoddiad hwn ym maes gwastraff bwyd ochr yn ochr â'r broses gyflymu a hwyluso a ddarperir gan y Tîm Caffael Gwastraff (o ran gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol) yn gwneud cyfraniad mawr at ddatblygu cynaliadwy drwy sicrhau bod digon o adnoddau trin gwastraff ar gael i alluogi Cymru i gyflawni targedau gwyro.

11. Ar ôl ymgynghori arni, gobeithio y byddaf yn gallu lansio strategaeth wastraff newydd, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, yng Ngwanwyn 2010.

**Ynni**

12. Mae mesurau effeithlonrwydd ynni ymhlith y camau mwyaf costeffeithiol y gellir eu cymryd i leihau carbon.

13. Arbed yw'r Rhaglen Buddsoddi Strategol newydd mewn Perfformiad Ynni, cyd-fenter tai, adfywio ac effeithlonrwydd ynni, a fydd yn buddsoddi ym mherfformiad ynni adeiladau a fydd yn ei dro yn creu swyddi gwyrdd ac yn ysgogi arloesedd.

14. Arbed yw cyfle gorau Llywodraeth y Cynulliad i lywio Cymru allan o'r dirwasgiad, a bydd yn gadael ar ei hôl weithwyr a busnesau yng Nghymru sydd â'r sgiliau i fanteisio ar farchnad perfformiad ynni a fydd yn parhau i dyfu yma ac yng ngweddill y DU.

15. Yn ystod y tair blynedd nesaf amcangyfrifir y caiff cyfanswm o hyd at £350 miliwn ei fuddsoddi ym mherfformiad ynni cartrefi yng Nghymru, wedi'i gydgysylltu drwy Arbed. Mae hyn yn cynnwys arian drwy'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, buddsoddi gan ddarparwyr tai cymdeithasol i fodloni gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru o ran perfformiad ynni a buddsoddi gan y cwmnïau ynni.

16. Bydd cam cyntaf Arbed yn gweld mwy na £30 miliwn o Gronfeydd Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau perfformiad ynni domestig mawr ledled Ardaloedd Adfywio Strategol Cymru. Disgwylir i'r defnydd strategol o'r arian hwn sicrhau buddsoddiad pellach o £20 miliwn, o leiaf, gan gwmnïau ynni drwy'r Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau. Mae hyn yn unigryw i Gymru ac mae bellach yn dwyn ffrwyth, er enghraifft y cyhoeddiad diweddar gan Nwy Prydain y bydd yn buddsoddi yn ardal Abertawe drwy gynllun y Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau (CESP).

17. Mae cyfernodau llafur Trysorlys EM / Cymunedau a Llywodraeth Leol yn awgrymu y bydd y buddsoddiad hwn yn creu rhwng 5,600 ac 11,200 o flynyddoedd unigolyn o gyflogaeth (gan ddibynnu ar natur y technolegau/mesurau y buddsoddir ynddynt, y mae rhai ohonynt yn fwy llafurddwys nag eraill).

18. Yn 2007 dechreuwyd ar brosiect Fframwaith Strategol Ynni Adnewyddadwy'r Môr, i wella ein dealltwriaeth o'r adnodd morol yng Nghymru, a'r potensial sydd i fanteisio arno o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy. Disgwylir i'r Fframwaith hwn gael ei gwblhau yn ystod hydref 2010.

19. O ran yr astudiaeth ddichonoldeb sy'n edrych ar adnodd ynni llanw Aber Hafren, disgwyliwn i ymgynghoriad ar ganfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb gael ei gynnal ar ddiwedd 2010.

**Newid yn yr Hinsawdd**

20. Rydym wedi cwblhau'r ymgynghoriad ar Raglen weithredu'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ac erbyn hyn rydym yn gweithio i ddatblygu'r Strategaeth derfynol, y bwriedir ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2010.

21. Rydym yn ymrwymedig i gyflawni gostyngiad o 40% o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2020 o'i gymharu â 1990. Cefnogir yr ymrwymiad hwn gan y pedair prif blaid yn y Cynulliad ac mae'n cyfleu neges gref bod Cymru'n cydnabod ei dyletswydd fel gwlad ddiwydiannol fechan â lefel allyriadau uwch i arwain y ffordd.

22. Ym mis Rhagfyr 2009 gwnaethom gyhoeddi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i'r **ymgyrch 10:10** i ostwng allyriadau tŷ gwydr o'i hystad weinyddol 10%. Ein nod fydd gostwng allyriadau o'r defnydd o'r grid trydan, tanwydd ffosil a theithio.

**Adeiladau Di-garbon**

23. Ein nod yw gwneud cynnydd cyflym tuag at sicrhau bod pob adeilad newydd yng Nghymru yn ddi-garbon. Mae oedi wrth drosglwyddo Rheoliadau Adeiladu yn golygu y bydd angen adolygu'r amserlen ar gyfer newid unwaith y byddant wedi'u trosglwyddo.

24. Rydym wedi cyflwyno safon 'Ardderchog' BREEAM neu God 3 fel un o'r amodau ar gyfer pob adeilad newydd sy'n cael cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu bob adeilad newydd y mae'n buddsoddi ynddo neu sy'n manteisio ar un o'i chynlluniau gwaredu tir, er mwyn dechrau'r daith tuag at sicrhau Cymru ddi-garbon ac at ddibenion cynaliadwyedd ehangach.

25. Ategwyd hyn gan newidiadau diweddar mewn polisi cynllunio cenedlaethol ar newid yn yr hinsawdd sydd wedi golygu, o fis Medi 2009, y bydd disgwyl i bob datblygiad tai newydd sy'n cynnwys pump neu ragor o unedau gyrraedd lefel 3 y Cod (ond gyda gwelliant o 31% ar Reoliadau Adeiladu cyfredol) a safon Da Iawn BREEAM (ond gydag Ardderchog ar gyfer credydau ynni) ar gyfer datblygiadau annomestig newydd sy'n fwy na 1000m2.

26. Cafodd y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau ar gyfer Rheoliadau Adeiladu gydsyniad brenhinol a ddaw i rym ar 31 Rhagfyr 2011. Bydd hyn yn ein galluogi i bennu fframwaith safonau ar gyfer pob adeilad, ni waeth beth fo'r ffynhonnell ariannu, sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion Cymru.

27. Rydym wedi sefydlu rhaglen cefnogi Cymru ddi-garbon y bwriedir iddi fapio a monitro gweithgarwch gan weithredu fel pont rhwng polisi a gweithgarwch cyflawni gyda'r pwyslais ar rannu gwybodaeth, gan godi ymwybyddiaeth i sicrhau y cymerir rhan yn y rhaglen dros y ddwy flynedd a hanner nesaf.

28. Mae'r rhaglen yn cysylltu ag Adrannau'r Llywodraeth a sefydliadau allanol i sicrhau bod gweithgareddau wedi'u cydgysylltu. Mae gweithgarwch cyfredol yn cynnwys cyfres o sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer contractwyr a'r proffesiynau.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

29. Mae'r Strategaeth Swyddi Gwyrdd yn adeiladu ar weithgarwch sydd eisoes yn mynd rhagddo. Yn fewnol, mae Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn edrych ar faterion Llywodraethu ac yn mapio meysydd busnes a all gyflawni mwy yn y maes hwn. Nodir isod rai enghreifftiau cryno o'r cynnydd a wnaed:

**Cymorth Hyblyg i Fusnes: Gwasanaeth Amgylcheddol a Chynaliadwyedd**

30. Y gwasanaeth hwn yw elfen gyntaf y Strategaeth Swyddi Gwyrdd ac mae eisoes ar waith.

31. Mae Cymorth Hyblyg i Fusnes yn cynorthwyo busnesau sy'n addasu eu cynhyrchion a'u gwasanaethau, yn benodol drwy roi cymorth arbenigol ym meysydd arloesi, eiddo deallusol (IP) a dylunio a gweithgynhyrchu, sydd ar gael drwy'r rhaglen Arloesi Busnes sydd werth £35m a ariennir gan yr UE.

32. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr arbenigol gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Garbon, Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, y Ganolfan Ecoddylunio, Envirowise, a Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

**Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer y Dyfodol**

33. Mae APADGOS wedi datblygu'r Gronfa Blaenoriaethau Sector Beilot sy'n cael arian Cydgyfeirio ac sy'n galluogi Cynghorau Sgiliau Sector i ddatblygu cynigion prosiect i fynd i'r afael â gwendidau neu fylchau ymddangosiadol yn y farchnad ddysgu mewn perthynas ag anghenion eu sector.

34. Mae APADGOS wedi dod â'r Cynghorau Sgiliau Sector hynny sy'n cwmpasu'r sgiliau/galwedigaethau carbon isel at ei gilydd i'w hannog i gydweithio ar gynnig partneriaeth.

**Meithrin Arloesedd a Thechnoleg**

35. Mae arian ar gyfer Ymchwil a Datblygu, Arloesi ac i ddatblygu cynhyrchion newydd ar gael drwy'r elfen Ymchwil a Datblygu o'r Gronfa Fuddsoddi Sengl, Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Cymru a'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch. Mae cymorth ar gael i fanteisio ar gronfeydd arian allanol o ffynonellau yn y DU a'r UE gan gynnwys y Bwrdd Strategaeth Technoleg ac FP7.

36. Yn ddiweddar cyhoeddodd Sefydliad Ymchwil Carbon Isel (LCRI) Cymru gyfan, gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad, fuddsoddiad o £34 miliwn mewn rhaglen i ymchwilio i dechnolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

37. Ym mis Tachwedd 2009 gwnaethom gyhoeddi buddsoddiad o £4 miliwn yn y Consortiwm Newid yn yr Hinsawdd i Gymru a fydd yn dod â bron 200 o arbenigwyr ynghyd ym mhedair o brifysgolion Cymru i wella ein dealltwriaeth o sut y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar yr amgylchedd ac ar fywydau pawb.

**Adfywio Strategol ac Adeiladau Cynaliadwy**

38. Rydym yn datblygu ein dull strategol o adfywio yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig iawn ac yn adeiladu ar y modelau a ddatblygwyd gennym yn ardal Blaenau'r Cymoedd ac ardal Môn a Menai.

39. Mae ein gweithgareddau adfywio yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd a byddant yn cynnwys cymunedau ac yn ymgysylltu â hwy gan greu seilwaith ar gyfer y dyfodol sy'n ffafrio ffyrdd cynaliadwy o fyw a gweithio.

**Trafnidiaeth**

40. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, a gyhoeddwyd er mwyn ymgynghori arno fis Gorffennaf diwethaf, yn nodi'n fanylach sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwireddu ei gweledigaeth o system drafnidiaeth fodern a chynaliadwy. Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu cytbwys, er mwyn i drafnidiaeth chwarae rhan lawn yn y gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, tra'n sicrhau ei bod yn parhau i ategu datblygu economaidd a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol.

41. Ymhlith rhai o'r prif fesurau trafnidiaeth a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol mae datblygu Trefi Teithio Cynaliadwy, gwell darpariaeth ar gyfer cerdded a seiclo, Buddsoddi mwy mewn gwasanaethau rheilffordd a bws, datblygu safleoedd parcio a theithio strategol a mesurau i fynd i'r afael ag allyriadau carbon o'r sector cludo nwyddau.

42. Ochr yn ochr â datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, mae'r pedwar consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol yn llunio Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd y cynlluniau hyn yn cyflawni Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn rhanbarthol ac yn lleol.

**Rhaglen Adnewyddu'r Economi**

43. Lansiwyd Rhaglen Adnewyddu'r Economi ar 13eg Hydref 2009 i sicrhau bod y polisïau a'r strwythurau cywir ar waith i hwyluso twf economaidd cynaliadwy.

44. Bydd y Rhaglen yn cynnig dull newydd o ymdrin â'r maes datblygu economaidd sy'n

- annog economi gryfach a mwy cynaliadwy.
- ymateb i her newid yn yr hinsawdd
- cynyddu ffyniant a lles hirdymor pobl Cymru yn unol â chytundeb Cymru'n Un.

45. Mae'n adeiladu ar y camau Llywodraeth gyfan llwyddiannus iawn a gymerwyd yn yr Uwchgynadleddau Economaidd sydd wedi uno'r Llywodraeth, y gymuned fusnes, yr undebau llafur a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

46. Y datganiad ym mis Rhagfyr ar Wasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, sef "Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach”, yw'r cam nesaf ar ein hymrwymiad i wella gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau ardderchog i ddinasyddion Cymru. Mae'n ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ein gwaith ar ddarparu gwell gwasanaethau a chanlyniadau i'n dinasyddion sydd wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus lle y dylent fod, gan ddefnyddio eu profiadau a'u gwybodaeth leol i helpu i ysgogi effeithlonrwydd ac arloesi a gwella safonau gwasanaeth. Ar yr un pryd, mae'n sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn fwy atebol drwy roi gwell gwybodaeth i ddinasyddion am eu perfformiad. Mae agweddau allweddol ar ymagwedd 'Tîm Cymru' yn cynnwys:

- gweithio i wella'r modd rydym yn prynu nwyddau a gwasanaethau. Gellir gwella effeithlonrwydd hefyd drwy ddefnyddio arfer da a thechnegau gwella busnes a lywir gan brofiadau dinasyddion a staff rheng flaen, gan symleiddio prosesau busnes, gwneud gwell defnydd o'n hasedau cyfalaf a datblygu mwy o wasanaethau a rennir a dulliau eraill o gydweithio.
- hyrwyddo buddsoddi cynaliadwy, gan sicrhau bod pob punt o arian cyhoeddus yn gweithio i helpu pobl i gael gwaith, datblygu sgiliau ac adeiladu'r seilwaith hirdymor cynaliadwy ar gyfer economi carbon isel fodern.
- Wrth wneud hyn i gyd disgwyliwn i Fyrddau Gwasanaethau Lleol chwarae rôl arweiniol drwy gydgysylltu partneriaethau a gwasanaethau lleol ar sail canlyniadau y cytunwyd arnynt, gyda chymorth dyletswydd statudol newydd ar bartneriaid i gydweithio i lunio a chyflawni eu strategaeth gymunedol leol.
- cymryd camau i wella'r dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael am sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn perfformio ac yn gwella i lywio penderfyniadau ynghylch camau gweithredu a blaenoriaethau yn y dyfodol.

**Byrddau Gwasanaethau Lleol**

47. Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn atgyfnerthu arweinyddiaeth gydweithredol yn lleol. Mae llawer o'r gwaith a wnânt yn seiliedig ar sicrhau y cyflawnir y strategaeth gymunedol, sef y cynllun statudol lleol allweddol ar gyfer hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Nododd y canllawiau diwygiedig a'r nodyn cyngor cysylltiedig ar ddatblygu cynaliadwy yn glir y dylai strategaethau cymunedol fabwysiadu datblygu cynaliadwy fel egwyddor allweddol.

48. Mae nifer o Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn gweithio'n benodol ar brosiectau datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn datblygu ac yn cyflawni amrywiaeth eang o brosiectau sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn ei ystyr ehangach, megis cyflawni prosiectau traws-sector cymhleth yn weithredol drwy dimau amlddisgyblaethol a rhannu adnoddau a gwaith cynllunio integredig.

49. Cynorthwyir y gwaith o rannu arloesedd ac arfer ym maes datblygu cynaliadwy ymhlith Byrddau Gwasanaethau Lleol mewn nifer o ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Rhwydwaith Arloesedd y Byrddau Gwasanaethau Lleol ar Ddatblygu Cynaliadwy* - defnyddiwyd y cyfarfod diweddaraf ym mis Tachwedd 2009 i nodi sut y gall Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned ddarparu fframwaith ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Lleol a sut y gall Byrddau Gwasanaethau Lleol gyflawni ein hymrwymiad cyffredin i sicrhau cynaliadwyedd.

- *Cylchlythyr y Byrddau Gwasanaethau Lleol* **-** Cyhoeddir y cylchlythyr hwn bob dau fis. Mae wedi cynnwys erthyglau ar y modd y mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn mynd i'r afael â datblygu cynaliadwy a bydd yn parhau i wneud hynny[1].

50. Ymhlith yr enghreifftiau o brosiectau Datblygu Cynaliadwy penodol sy'n cael eu cynnal gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol mae:

- *Prosiect Datblygu Cynaliadwy Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin* O fewn ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin yn cymryd camau cadarnhaol i leihau'r ynni a ddefnyddir; lleihau allyriadau a chynyddu ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb cymdeithasol ac unigol.

- *Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd -* Lleihau ôl troed carbon Gwynedd Mae Prosiect Ôl Troed Carbon y sir yn un o brif flaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd. Mae partneriaid y sir yn cydweithio â'i gilydd a chydag arbenigwyr o'r Ymddiriedolaeth Garbon ac Envirowise i sicrhau lleihad sylweddol mewn allyriadau CO2 yng Ngwynedd. Mae'r Bwrdd hefyd yn cefnogi strategaeth ynni cynaliadwy Bangor mewn partneriaeth â'r Cynulliad a'r Ymddiriedolaeth Garbon.

51. Ymhlith yr Awdurdodau Lleol eraill, mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint a Bwrdd Gwasanaethau Lleol Powys hefyd yn datblygu prosiectau ar liniaru newid yn yr hinsawdd, tra bod Sir Fynwy yn gweithio ar brosiectau ar addasu i newid yn yr hinsawdd a thai cynaliadwy.

## Cynllun Gofodol Cymru

## Rhanbarthau Carbon Isel

52. Lansiodd Andrew Davies a Peter Davies o'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yr adroddiad 'Rhanbarthau Carbon Isel' ar y cyd ar 12fed Tachwedd 2009. Datblygwyd yr adroddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

---

[1] http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/localserviceboards/news/?skip=1&lang=cy

ac roedd yn cynnwys cyfres o weithdai lle y profwyd y canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg ym mhob un o ardaloedd y Cynllun Gofodol. Yn ystod yr hydref, trafodwyd y gwaith ar Ranbarthau Carbon Isel yn y cyfarfodydd Gweinidogol ym mhob un o ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru i baratoi'r ffordd ar gyfer datblygu strategaethau carbon isel ardal-benodol. Yn hyn o beth, bydd y pwyslais ar y gweithgareddau hynny, lle mai persbectif rhanbarthol a chroes-sectoraidd ardal Cynllun Gofodol Cymru yw'r lefel fwyaf priodol i ddechrau datblygu strategaethau, gan osgoi dyblygu gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo neu waith arfaethedig sydd wedi'i dargedu yn lleol neu'n genedlaethol, neu at sectorau penodol.

**Rhanbarthau Amgylcheddol Rhwydweithiol**

53. Mae diweddariad 2008 o'r Cynllun Gofodol yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu De-ddwyrain Cymru fel "rhanbarth amgylcheddol rhwydweithiol". Dyma un ffordd allweddol rydym yn ceisio cyflawni'r ymrwymiadau yn y Strategaeth Amgylcheddol. Y cysyniad yw nodi atebion lle mae pawb ar eu hennill lle y gall camau amgylcheddol gyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ehangach y rhanbarth, er enghraifft drwy

- wneud yr ardal yn fwy deniadol gan ategu gweithgarwch adfywio;
- helpu i liniaru risgiau yn gysylltiedig â llifogydd o afonydd a'r môr;
- datblygu llwybrau cerdded a seiclo fel rhan o drafnidiaeth gynaliadwy;
- hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o ddefnyddio dŵr a systemau draenio trefol cynaliadwy;
- cynyddu cyfleoedd hamdden/twristiaeth ac, fel rhan o hyn, gyfleoedd i bobl o ardaloedd difreintiedig gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored sy'n hyrwyddo byw'n iach;
- mynd i'r afael ag effeithiau ynys gwres mewn trefi a dinasoedd, gan addasu i newid yn yr hinsawdd; a, thrwy wneud hynny,
- wella ansawdd bywyd mewn ardal.

54. Mae hyn i gyd yn gofyn am weithredu cydgysylltiedig ar raddfa ranbarthol; gan edrych ar yr amgylchedd fel rhwydwaith. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran cymhwyso'r cysyniad yn y De-ddwyrain, tra ein bod hefyd yn ystyried y posibilrwydd o wneud hyn mewn ardaloedd Cynllun Gofodol eraill. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo yng Ngogledd-ddwyrain Cymru gan weithio gyda Chynghrair Mersi a Dyfrdwy i wella'r modd y rheolir Afon Dyfrdwy mewn ffyrdd a all sicrhau amrywiaeth eang o fanteision. Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio cenedlaethol i gynorthwyo a chydgysylltu'r gwaith yn Ne-ddwyrain Cymru a'r gwaith sy'n gysylltiedig ag Afon Dyfrdwy a gosod y sylfeini ar gyfer gweithredu mewn ardaloedd Cynllun Gofodol eraill.

<u>Y Gweinidog dros Faterion Gwledig:</u>

**Coetiroedd i Gymru**

55. Mae Cynllun Gweithredu *Coetiroedd i Gymru* wrthi'n cael ei lunio. Bydd y camau gweithredu yn helpu i gyflawni canlyniadau allweddol y strategaeth a bydd cynaliadwyedd ac ymateb i newid yn yr hinsawdd yn elfennau allweddol o'r broses gyflawni.

**Grŵp Defnydd Tir a Newid yn yr Hinsawdd Cymru**

56. Sefydlwyd grŵp newydd i roi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar sut y gall amaethyddiaeth ymateb i her diogelwch bwyd tra'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2009 (Ionawr).

57. Cynrychiolir sefydliadau ffermio a chefn gwlad, asiantaethau'r llywodraeth a sefydliadau academaidd o dan gadeiryddiaeth yr Athro Gareth Wyn Jones.

58. Bydd y grŵp yn defnyddio dull cyfannol ac integredig o weithredu sy'n seiliedig ar asesu'r cyfaddawdu rhwng manteision ac anfanteision darparu gwasanaethau ecosystem:
- darparu bwyd, ffeibr, dŵr a thanwydd,
- darparu gwasanaethau cymorth sylfaenol – cynhyrchu crai, cylchu maetholion, ffurfio pridd,
- darparu gwasanaethau rheoleiddio – rheoli llifogydd, rheoli'r hinsawdd, rheoli clefydau, rheoli ansawdd aer,
- darparu gwasanaethau diwylliannol – tirwedd, bioamrywiaeth a hamdden.

59. Bydd cylch gwaith y Grŵp yn cynnwys:

a). sut i leihau allyriadau o amaethyddiaeth a'r defnydd a wneir o dir a gweithgareddau gwledig, ac fel y bo'n briodol eu gwrthbwyso, gan ystyried
- cylch oes y gadwyn cynhyrchu bwyd o'r cae i'r fforc,
- y mewnbynnau i'r sector o sectorau eraill e.e. gwrteithiau, trafnidiaeth, cemegau eraill,
- yr economi wledig yn gyffredinol o ran anghenion adnoddau a chynaliadwyedd e.e. ynni
- potensial cymunedau gwledig i gynhyrchu ynni adnewyddadwy

b). sut y gall amaethyddiaeth a choetir addasu i newid yn yr hinsawdd – gan ystyried cyfleoedd a bygythiadau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd

c). sut i reoli ein tir a gwella gallu sectorau eraill o gymdeithas i addasu i newid yn yr hinsawdd.

60. Disgwylir i'r Grŵp gyflwyno adroddiad i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ym mis Ionawr 2010.

<u>Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol:</u>

**Y Mesur Llywodraeth Leol**

61. Mae'r Mesur yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio cymunedol. Yn ffurfiol, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn diffinio cynllunio cymunedol fel proses lle mae'r awdurdod a'i bartneriaid cynllunio cymunedol yn:

- Nodi amcanion hirdymor ar gyfer gwella lles cymdeithasol, economaidd ac *amgylcheddol* ardal;
- Nodi amcanion hirdymor mewn perthynas â'r ardal ar gyfer cyfrannu at sicrhau *datblygu cynaliadwy* yn y Deyrnas Unedig;
- Nodi camau i'w cymryd a swyddogaethau i'w cyflawni gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol er mwyn cyflawni'r amcanion hynny a nodwyd yn y strategaeth gymunedol.

## Cytundebau Canlyniadau

62. Fel rhan o *Cyd-Ddealltwriaeth Newydd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth Leol*, mae Cytundebau Canlyniadau yn cael eu datblygu gydag Awdurdodau Lleol. Bydd y cytundebau hyn yn darparu dull o reoli perfformiad lleol a chenedlaethol sy'n seiliedig ar ganlyniadau a byddant yn pennu fframwaith atebolrwydd mwy effeithiol drwy ddarparu cymhelliant i wella a sicrhau canlyniadau lleol o safon.

63. Felly bydd cytundebau canlyniadau yn prif ffrydio cynaliadwyedd mewn dwy ffordd:
    - drwy gynnwys canlyniadau penodol sy'n ymwneud â rhai o'r agweddau amlycach a phwysicach, yn gyffredinol, ar gynaliadwyedd, megis lleihau carbon, lleihau gwastraff ac addasu i newid yn yr hinsawdd;
    - yn fwy cyffredinol drwy gynnwys canlyniadau sy'n adlewyrchu set hirdymor o flaenoriaethau ar gyfer gwella lles lleol yn gynaliadwy.

## Llywodraeth Leol

64. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi cael arian gan y Fframwaith Datblygu Cynaliadwy i helpu awdurdodau lleol i gynllunio'n gorfforaethol i hybu datblygu cynaliadwy. Defnyddiwyd yr arian i roi cymorth un-i-un i awdurdodau i helpu i bontio'r bwlch o ran gwireddu eu dyheadau mewn meysydd megis newid yn yr hinsawdd, diogelwch ynni a diogelwch bwyd.

65. Mae Llywodraeth Leol yn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni, lle mai 2010-11 yw'r flwyddyn sylfaen. Disgwylir i bob awdurdod lleol gael ei gwmpasu gan y cynllun. Bydd y cynllun (y cyfeirir ato fel yr Ymrwymiad Lleihau Carbon yn Lloegr) yn gweithredu cynllun masnachu carbon o 2011-12 a fydd yn cymell pob corff cyhoeddus sy'n cymryd rhan ynddo (gan gynnwys awdurdodau lleol) i leihau eu hallyriadau carbon yn sylweddol. Unwaith y bydd wedi ymsefydlu caiff y cynllun ei atgyfnerthu drwy gynnwys terfyn uchaf ar lwfans carbon awdurdodau sy'n cymryd rhan ynddo.

66. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon ar eu gweithgareddau meincnodi carbon a hefyd i gael cyngor ar dechnegau lleihau carbon. Mae nifer o awdurdodau wedi llwyddo i gael benthyciadau o dan eu cynllun SALIX Finance, sy'n gynllun partneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Ymddiriedolaeth Garbon a SALIX Finance.

67. Mae rhaglenni arian Ewropeaidd ar gyfer adfywio bellach yn cynnwys bioamrywiaeth a meini prawf eraill sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy fel rhan o'u telerau a'u hamodau. At hynny, cynigiwyd y gellid gosod targedau ar gyfer arbed ynni fel amodau safonol ar gyfer unrhyw gyllid refeniw craidd ac unrhyw grantiau refeniw i sefydliadau nad ydynt yn awdurdodau lleol (cyrff trydydd sector yn bennaf).

68. Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru gydgysylltwyr datblygu cynaliadwy sy'n gyfrifol am gydgysylltu strategaethau datblygu cynaliadwy a strategaethau amgylcheddol.  Maent yn gweithredu drwy fforwm Cydgysylltwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru i ledaenu gwybodaeth ac arfer da er mwyn hwyluso'r gwaith o sicrhau datblygu cynaliadwy yn lleol a llywio strategaeth genedlaethol a dylanwadu arni.

**Cymunedau yn Gyntaf**

69. Lansiwyd Fframwaith Gweledigaeth Cymunedau yn Gyntaf newydd fel fframwaith ar gyfer llywio ceisiadau am arian ar gyfer Cronfa Canlyniadau 2009-2012. Mae'r Amgylchedd yn un o chwe thema yn y Fframwaith Gweledigaeth. Bu swyddogion yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gweithio'n agos gydag Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ddatblygu'r thema hon, ac maent yn cysylltu â'i gilydd yn rheolaidd i drafod unrhyw gynigion ar gyfer prosiectau. Yn ddiweddar lansiodd yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dŵr yr Her Cymunedau Carbon Isel, ac mae'n bwriadu canolbwyntio tri o'r chwe chynllun peilot mewn Cymunedau yn Gyntaf.

**Y Rhaglen Cyfleustodau a Gweithgareddau Cymunedol  (CFAP)**

70. Drwy CFAP, cymorth i Fentrau Cymdeithasol a Groundwork, mae'r Is-adran Cymunedau wedi ariannu amrywiaeth o gynlluniau ailgylchu dodrefn. Mae'r rhain yn cynnwys Menter Dodrefn Gymunedol yn Rhymni a sefydlwyd gan Groundwork Caerphilly, a Refurbs Sir y Fflint.

71. Mae'r Rhaglen wedi rhoi mwy na £40 miliwn i nifer fawr o brosiectau lleol ers 2002. Roedd llawer o'r prosiectau yn cynnwys adnewyddu neuaddau pentref, gan sicrhau bod cymunedau yn fwy cynaliadwy.

72. Adolygwyd CFAP yn ystod 2009, a chyflwynwyd meini prawf newydd ar gyfer cylch mis Hydref.  Lle y bo'n berthnasol, yn enwedig lle mae adeiladau newydd dan sylw, mae bellach yn ofynnol i gynlluniau gyrraedd safonau Ardderchog BREEAM.

73. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn gweithio'n agos gyda'r Cynulliad i hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy mewn mentrau cymdeithasol.

**Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru**

74. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi'n glir ei hymrwymiad i dargedau Llywodraeth y DU ar gyfer tlodi plant ac mae'n parhau'n ymrwymedig i wneud popeth y gall, o fewn y pwerau sydd ar gael, i helpu i gyflawni'r nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020.

75. Dengys y ffigurau diweddaraf ar gyfer tlodi plant yng Nghymru pa mor bwysig ydyw bod Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud cymaint ag y gall, gan ddefnyddio'r holl bwerau deddfwriaethol sydd ar gael, i wneud mwy i

wella'r cyfleoedd bywyd ar gyfer plant sy'n byw mewn teuluoedd ar incwm isel. Mae amrywiaeth eang iawn o bolisïau a rhaglenni ar waith i fynd i'r afael â thlodi plant, ond cydnabyddir bod angen ymgyrch newydd i'w leihau. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 10fed Tachwedd, yn rhan allweddol o hyn. Mae'r Mesur yn darparu'n statudol ar gyfer gweithredu ar ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran tlodi plant, mae'n darparu ar gyfer rhoi mwy o gymorth i deuluoedd lle y gall plant fod mewn perygl, ac mae'n atgyfnerthu camau gorfodi rheoliadol mewn lleoliadau gofal plant.

76. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau yng Nghymru, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, lunio a chyhoeddi strategaeth ar gyfer cyfrannu at y gwaith o ddileu tlodi plant yng Nghymru. Mae'n adlewyrchu dealltwriaeth Gweinidogion, er mwyn gwneud cynnydd cyflymach o ran dileu tlodi plant, fod angen annog amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithredu a defnyddio eu harbenigedd a'u profiad. Ar 5ed Hydref 2009, cytunodd aelodau Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc ar y fframwaith arfaethedig ar gyfer y strategaeth tlodi plant newydd, a oedd yn ceisio nodi'r meysydd polisi hynny y bydd yn arbennig o bwysig canolbwyntio arnynt yn ein strategaeth tlodi plant newydd.

77. Mae gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn teuluoedd tlawd yng Nghymru yn elfen ganolog o bolisi tlodi plant Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd llunio'r strategaeth newydd yn seiliedig ar y 13 o nodau cyffredinol a nodir ym Mesur arfaethedig Plant a Theuluoedd (Cymru) a saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hwyluso'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, sef mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi incwm drwy amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni trawsbynciol. I'r perwyl hwnnw, er y bydd strategaeth tlodi plant Llywodraeth y Cynulliad yn parhau â'i ffocws eang mae mwy o gydnabyddiaeth bod angen canolbwyntio yn y strategaeth newydd hon ar y canlyniadau hynny ar gyfer plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt yn *benodol* gan y ffaith eu bod mewn teulu ar incwm isel. Caiff y strategaeth ei chyhoeddi er mwyn ymgynghori arni yn 2010.

### Cynhwysiant Ariannol a Thlodi Tanwydd

78. Mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru, “Mae Pawb yn Cyfrif”, yn seiliedig ar randdeiliaid allweddol yn cydweithio i hwyluso ymateb cyd-asiantaethol cyfannol a chydgysylltiedig i faterion cynhwysiant ariannol. Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod cysylltiadau pendant rhwng allgáu ariannol a thlodi tanwydd y bydd angen eu dwyn ynghyd a rhoi sylw priodol iddynt er mwyn i ni lwyddo i gyflawni ein nod o hyrwyddo cynhwysiant ariannol.

79. Mae angen ymgorffori tlodi tanwydd yng ngwaith y tîm newydd o Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol i Gymru a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Dylai croesgyfeiriadau rhwng asiantaethau fod yn rhan annatod o'n gwaith i

sicrhau y defnyddir pob dull sydd ar gael i gynorthwyo cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd.

80. Bydd annog a chefnogi ffyrdd o leihau biliau cyfleustodau hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo cynhwysiant ariannol a lleihau tlodi tanwydd yng Nghymru a gellid cyflawni'r nod hwnnw mewn sawl ffordd gan gynnwys:

- annog unigolion i newid cyflenwyr cyfleustodau drwy roi cyngor diduedd ar effeithlonrwydd ynni iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn cael y tariffau gorau sydd ar gael;
- helpu i sicrhau bod y cartrefi sydd fwyaf agored i niwed yn manteisio ar 'dariffau cymdeithasol' er mwyn sicrhau y gallant brynu ynni yn rhatach;
- gwneud cartrefi yn fwy ynni effeithlon.

**Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol**

81. Mae'r Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol yn cynnwys rhestr o Gamau Gweithredu a fydd yn atgyfnerthu'r cymorth sydd ar gael i fentrau cymdeithasol newydd a mentrau cymdeithasol sy'n bodoli eisoes ledled Cymru. Bydd hyn yn annog grwpiau cymunedol a grwpiau gwirfoddol i ystyried ffyrdd o greu mwy o incwm a masnachu gan eu gwneud yn fwy cynaliadwy, a lleihau eu dibyniaeth ar grantiau.

**Y Trydydd Sector**

82. Ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y Trydydd Dimensiwn - Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector ymgyrch hyrwyddo i ddenu gwirfoddolwyr a darparu ffynhonnell o wybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli.

83. Yn unol â Chynllun y Sector Gwirfoddol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gefnogi seilwaith integredig sy'n cynrychioli, yn hyrwyddo, yn cefnogi ac yn datblygu'r sector gwirfoddol cyfan ac sy'n atebol iddo yn genedlaethol ac yn lleol.

84. Yn 2005 llofnodwyd y Cytundeb Partneriaeth arloesol rhwng Llywodraeth y Cynulliad, CGGC, CGSau a Chanolfannau Gwirfoddoli annibynnol. Cydnabu yn ffurfiol rôl CGSau, Canolfannau Gwirfoddoli a CGGC fel tair rhan seilwaith y sector gwirfoddol. Ymrwymodd i ddarparu arian am gyfnod o bum mlynedd ac, am y tro cyntaf, cyflwynodd gyllid craidd ar gyfer Canolfannau Gwirfoddoli. Yn ysbryd Creu'r Cysylltiadau, ymrwymodd y seilwaith i gydweithio ar draws ffiniau i nodi'r ffordd orau o ddiwallu anghenion y trydydd sector, a dileu unrhyw ddyblygu y gellir ei osgoi er mwyn rhyddhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen. Ym mis Gorffennaf 2008 ymestynnwyd y cytundeb treigl pum mlynedd tan 2013.

85. Mae CGGC yn rheoli amrywiaeth o gynlluniau gwirfoddoli ar ran yr Is-adran Gymunedau. Mae llawer o enghreifftiau o grwpiau ac unigolion sydd wedi cael budd o'r cynlluniau hyn gan gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella'r amgylchedd lleol.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

**Ystadau'r GIG Ynni**

86. Nododd paragraff 74 o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru fod 57 o safleoedd mwyaf y GIG yng Nghymru yn defnyddio tariffau gwyrdd di-garbon i gyflenwi eu trydan grid. Mae canllawiau DEFRA bellach yn nodi na ddylai tariffau gwyrdd gael eu hystyried yn rhai di-garbon.

**Systemau Rheoli Amgylcheddol**

87. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl ymrwymedig i wella systemau rheoli amgylcheddol ym mhob rhan o GIG Cymru. Penderfynwyd adolygu targedau Lefel 3 y Ddraig Werdd ac adeiladu arnynt. Bydd y meincnod newydd yn seiliedig ar safon ISO 14001 a gosodwyd targedau ar gyfer pob corff dal eiddo yn y GIG. System ISO 14001 yw'r safon amgylcheddol ryngwladol fwyaf cydnabyddedig. Er mwyn cadw'r ardystiad bydd angen i sefydliadu'r GIG dan sylw gael eu harchwilio gan gorff allanol.

**Cynlluniau Teithio**

88. Cyfeirir at gynlluniau teithio ym mharagraff 84 o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n rhaid i'r cynlluniau gynnwys ystod o fesurau trafnidiaeth gynaliadwy a fydd yn:

- Sicrhau bod safleoedd y GIG yn hygyrch i bob defnyddiwr;
- Hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o deithio yn hytrach na theithiau car a wneir gan bobl ar eu pen eu hunain;
- Hyrwyddo manteision iechyd teithio byw

**Ein Dyfodol Iach**

89. Er mwyn gwella cynaliadwyedd mae angen lleihau salwch y gellir ei osgoi. Mae amgylcheddau ac ymddygiad afiach, a'r salwch a'r niwed a achosant, yn rhoi cryn faich ar unigolion, teuluoedd, cymunedau a sefydliadau - baich y gellir ei osgoi. Mae hyn hefyd yn creu costau i'r GIG a gwasanaethau cymorth eraill ac yn lleihau'r gallu i gynhyrchu. Mae'r beichiau hyn yn enfawr ac efallai y byddant yn anghynaladwy yn y dyfodol. Mae angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r achosion a sicrhau bod ymyriadau i ymdrin â phroblemau sy'n codi mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

90. Yn y cyd-destun hwn, cymeradwyodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi *Ein Dyfodol Iach* ym mis Hydref. Mae ei nodau a'i themâu yn cydategu'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy, ac maent yn canolbwyntio ar newid y ffocws i wella iechyd ac ymyrryd yn gynnar i helpu i greu cymunedau iach cynaliadwy a lleihau gwahaniaethau yn iechyd pobl y gellir eu hosgoi. Yn y GIG, mae ymdrechion penodol i fesur a gwella ansawdd, gan gynnwys camau gweithredu i wella diogelwch cleifion a chynyddu effeithlonrwydd, hefyd wedi dechrau. Un o'r

uchelgeisiau cyffredinol ar gyfer *Ein Dyfodol Iach* yw bod pob sefydliad ac unigolyn yng Nghymru yn cydweithio i sicrhau dyfodol cynaliadwy drwy atal achosion ataliadwy salwch ac anghydraddoldebau iechyd.

91. Yn y tymor hwy, dylai'r dull gweithredu hwn sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni ac i genedlaethau'r dyfodol gan gymryd camau ataliol gweithredol drwy'r llwybr iechyd gydol oes a sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau.

**Safon Iechyd Corfforaethol**

92. Fel rhan o'r broses barhaus o gyflawni rhaglen y Safon Iechyd Corfforaethol, bydd yr Adran Iechyd a'r Proffesiynau Iechyd yn ymgysylltu â sefydliadau newydd y GIG i'w hannog i weithio tuag at ddyfarniadau lefel Platinwm. Mae'r Fframwaith Gweithredu Blynyddol ar gyfer y GIG yn gosod targedau ar gyfer ennill dyfarniadau Aur neu Blatinwm. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel y corff sy'n cyflwyno'r Safon Iechyd Corfforaethol, hefyd yn annog busnesau a sefydliadau sydd â dyfarniadau lefel aur ar hyn o bryd i symud ymlaen i'r lefel blatinwm.

<u>Y Gweinidog dros Dreftadaeth:</u>

**Cadw**

93. Mae Cadw wedi penodi aelod penodol o'r staff technegol fel cydgysylltydd ar gyfer materion cynaliadwyedd i lunio a gweithredu strategaeth, cynllun gwaith ac amserlen ar gyfer lleihau'r ôl troed carbon ym mhob un o safleoedd Cadw, yn ogystal â datblygu canllawiau i berchenogion ar ddulliau 'arfer gorau' o wella effeithlonrwydd ynni eu hadeiladau hanesyddol eu hunain.

94. Mae Cadw wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer prosiect twristiaeth treftadaeth strategol gwerth £19m o dan yr UE. Mae'r prosiect hwn yn ceisio cynyddu gwerth treftadaeth cymaint â phosibl gan gynnwys sicrhau manteision y tu hwnt i brif safleoedd unigol a chyfrannu at ein hymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol. Caiff cynaliadwyedd ei ymgorffori yng nghynlluniau prosiectau unigol, er enghraifft:

- rhoddir cyngor i ymwelwyr ar deithio i safleoedd, gan gynnwys hyrwyddo mynediad iddynt drwy drafnidiaeth gyhoeddus, seiclo a cherdded;
- gwneir cysylltiadau â gweithgareddau cymunedol, gweithgareddau treftadaeth a gweithgareddau twristiaeth perthnasol sy'n bodoli eisoes;
- ymgorfforir ailddefnyddio neu addasu strwythurau sy'n bodoli eisoes, defnyddio deunyddiau cynaliadwy nad ydynt yn galw am lawer o waith cynnal a chadw a gwasanaethau ynni isel neu ddiynni ym mhob datblygiad newydd, lle bynnag y bo modd a lle y bo hynny'n briodol;
- ymgorfforir yr effaith ar yr ôl troed carbon yn y fframwaith monitro a gwerthuso.

95. Mae'r gwaith a wna Cadw i ddiogelu'r henebion sydd o dan ofal y Wladwriaeth a rhoi cyngor i eraill ar ddiogelu treftadaeth adeiledig Cymru yn ei hanfod yn dra chynaliadwy. Mae deunyddiau sy'n bodoli eisoes yn cael eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu fel rhan o'r drefn a chaiff y cynhyrchion newydd sydd eu hangen, megis calch ar gyfer morter, ac ati, eu gweithgynhyrchu gan ddefnyddio prosesau sy'n defnyddio cryn dipyn yn llai o ynni nag a ddefnyddir yn achos strwythurau arferol (ee. sment). Mae'r defnydd helaeth a wneir o sgiliau crefftau traddodiadol, gan ddefnyddio gweithwyr lleol (gan gynnwys timau crefftau Cadwraeth Cymru Cadw ei hun) lle bynnag y bo modd hefyd yn helpu i gynnal a datblygu ffynonellau cynaliadwy o gyflogaeth.

**Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad**

96. Mae'r Is-adran dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon yn gweithio'n agos gyda'i Chyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad i fonitro'r modd y mae Cynllun Gofodol Cymru (CGC) a'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn cael eu gweithredu.

97. Mae'n ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) nodi yn ei ddogfennau cynllunio busnes sut y bydd yn ategu'r gwaith o weithredu CGC a'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy.

98. Mae CCC wrthi'n adolygu ei bolisi ar yr amgylchedd a theithio. Bydd y diweddariad hwn yn pwysleisio pa mor bwysig yw defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac asesu effaith amgylcheddol teithiau yn ogystal â'r gost. Ceisir cymeradwyaeth i'r polisi diwygiedig yn y flwyddyn newydd.

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trafnidiaeth a Thwristiaeth Gynaliadwy**

99. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trafnidiaeth a Thwristiaeth Gynaliadwy yn gynharach eleni i nodi ffyrdd y gall y sector twristiaeth a'r sector trafnidiaeth gyhoeddus gydweithio'n agosach. Lluniwyd a chyhoeddwyd adroddiad mewn cynhadledd ar Dwristiaeth a Thrafnidiaeth Gynaliadwy a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 4ydd Tachwedd sy'n nodi nifer o ffyrdd y gall y diwydiant twristiaeth annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus pan fyddant ar wyliau yng Nghymru.

100. Mae'r adroddiad yn ystyried y rhwystrau sy'n wynebu twristiaid o ran defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â'r heriau sy'n wynebu rheolwyr o ran gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol i'r ymwelydd. Nododd hefyd y cyfleoedd sydd o fewn gwasanaethau sy'n bodoli eisoes a blaenoriaethau'r Llywodraeth a all helpu i oresgyn y rhwystrau drwy weithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth.

101. Ymhlith prif argymhellion yr adroddiad mae:

- rhoi gwell gwybodaeth i ymwelwyr am ba opsiynau sydd ar gael ar y pryd o ran trafnidiaeth gyhoeddus
- annog mwy o wasanaethau lleol wedi'u cysylltu ag atyniadau ymwelwyr

- cynnig cymhellion i annog ymwelwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
- symleiddio trefniadau tocynnau gan gynnwys tocynnau integredig ar gyfer gwahanol ddulliau o deithio
- cynllunio teithiau ar gyfer atyniadau ymwelwyr allweddol

102. Caiff yr argymhellion yn yr adroddiad hwn eu hystyried yn fanylach yn awr gan y Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy a fydd yn gweithio tuag at lunio cynllun gweithredu manylach yn ystod y flwyddyn nesaf.

103. At hynny mae Croeso Cymru wedi comisiynu astudiaeth o effaith newid yn yr hinsawdd ar dwristiaeth i edrych ar yr effaith y caiff newidiadau yn ein tywydd a'n hinsawdd yn y dyfodol ar ymwelwyr â Chymru a sut y gall y diwydiant twristiaeth addasu ac ymateb i'r heriau newydd hyn.

104. Cyflwynwyd canfyddiadau cychwynnol o'r astudiaeth hon mewn adroddiad i weithdy ar Newid yn yr Hinsawdd a Thwristiaeth ym mis Hydref ar sut y gall economi ymwelwyr Cymru addasu a datblygu ei chynnig gan ystyried y newid yn yr hinsawdd a ddisgwylir yn y dyfodol. Mae Croeso Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r tîm Newid yn yr Hinsawdd ar nifer o fentrau newid yn yr hinsawdd eraill.

105. Mae Croeso Cymru yn cymryd rhan mewn grŵp Twristiaeth Gynaliadwy i Brydain ac Iwerddon sy'n cynnwys y byrddau croeso cenedlaethol i gyfnewid profiad a chomisiynu ymchwil ar y cyd. Mae Croeso Cymru hefyd wedi ymuno â'r ERNEST, Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer ymchwilio i Dwristiaeth Gynaliadwy, i rannu arfer gorau a phrofiadau ar y lefel Ewropeaidd.

106. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ein dealltwriaeth o'r effaith y mae twristiaeth yn ei chael ar yr amgylchedd drwy'r gwaith y mae Uned Ymchwil Economaidd Cymru yn ei wneud i ddatblygu Is-gyfrif Twristiaeth Cymru, i'n galluogi i ddeall yn well yr opsiynau polisi i leihau'r effeithiau hyn.

107. Ar lefel rhaglen, mae Croeso Cymru yn parhau i weithio drwy'r Fforwm ar nifer o wahanol brosiectau yn ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy sy'n cynnwys cyflwyno canllawiau arfer gorau yn y Cynllun Graddio wedi'i Gysoni, rhaglen ddilysu i'r DU gyfan gyda Visit Britain i asesu cynlluniau achredu gwyrdd yn ogystal â gwella prosesau cyfathrebu â'r diwydiant ar gyngor a chanllawiau cynaliadwy drwy'r porth FS4B, gan gyflwyno pecynnau cymorth ac astudiaethau achos.

108. Yn ddiweddar, cafodd Croeso Cymru gymeradwyaeth hefyd ar gyfer dau brosiect strategol o dan yr UE ar dwristiaeth gynaliadwy ac arfordirol, sy'n werth cyfanswm o £35m. Bydd y ddau brosiect yn datblygu canolfannau rhagoriaeth mewn twristiaeth strategol yng Nghymru yn seiliedig ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Mae'r ddau brosiect hyn yn canolbwyntio ar dwristiaeth gweithgareddau.

109. Yn ddiweddar daeth Cymru yn seithfed mewn arolwg o wledydd gan gylchgrawn y National Geographic, sef y Traveller, fel un o'r llefydd gorau “yr ystyrir ei fod mewn cyflwr ardderchog, heb ei ddifetha i raddau helaeth, a'i fod yn debygol o aros felly”.

110. Arolygodd tîm y National Geographic 133 o gyrchfannau yn ei chweched arolwg blynyddol o stiwardiaeth cyrchfannau. Mae'r arolwg yn asesu sut mae gwaith datblygu, twristiaeth dorfol, llygredd a globaleiddio wedi effeithio ar rai o gyrchfannau eiconig y byd.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

111. Yn ymateb gwreiddiol y Llywodraeth tynnais sylw at rôl APADGOS a'r meysydd polisïau a rhaglenni proffil uchel presennol a'r rhai sydd i ddod a fydd yn cyfeirio'n benodol at y cysylltiadau â datblygu cynaliadwy fel y nodir yn y diffiniad o'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Yn yr atodiad hwn, nodaf y meysydd lle mae cynnydd pellach wedi'i wneud ers mis Hydref 2009:

**Amgylcheddau Dysgu**

112. Rydym yn ceisio trawsnewid y system, yn gyntaf am fod angen moderneiddio'r ddarpariaeth i fodloni gofynion yr 21ain ganrif, ac yn ail am fod angen symleiddio'r ddarpariaeth i wella effeithlonrwydd ar adeg pan fo cyllidebau yn gyfyngedig iawn.

113. Roedd rhai o'r cynlluniau a gyflwynwyd yn radical a gweledigaethol, ac o ganlyniad erbyn hyn ledled Cymru mae chwe Choleg AB wrthi'n uno. Cysylltodd sawl AALl gynlluniau ad-drefnu ar gyfer addysg cyn-16 â'u cynigion ar gyfer addysg ôl-16, ac felly rydym bellach wedi cyfuno'r ddwy raglen yn un strategaeth drawsnewid gyffredinol. Ar 2 Rhagfyr, cynhaliwyd Cynhadledd Genedlaethol ar Drawsnewid lle y cyflwynodd fy Adran adroddiad ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran newid trawsffurfiadol ôl-16 a dangos rhywfaint o'r gwaith cyffrous iawn a oedd yn mynd rhagddo ledled y wlad.

114. Fel rhan o agenda ‘Cymru'n Un’ ymrwymodd y Llywodraeth hon i ddarparu ysgolion sy'n addas i'r 21ain ganrif. Rydym yn datblygu cynllun buddsoddi cyfalaf strategol hirdymor newydd a fydd yn effeithio ar bob ysgol, coleg a phrifysgol yng Nghymru. Bydd y gwaith o Ddatblygu cynigion cyfalaf newydd yn rhaglen flaenfuddsoddi yn cael ei gysoni â rhaglenni buddsoddi cyfalaf yng ngweddill y system addysg. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth a bydd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu eu rhaglenni buddsoddi cyfalaf.

115. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i nodi ffyrdd o gydgysylltu arian â gwasanaethau cyhoeddus eraill, yn ogystal â cheisio arian gan Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol newydd Llywodraeth y Cynulliad.

116. Mae Cymru'n Un yn ymrwymo i sefydlu rhaglen o fuddsoddi mwy mewn ysgolion cynaliadwy. Felly, gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad bydd adeiladau newydd ac adeiladau a adnewyddwyd yn ceisio lleihau allyriadau carbon a gwneud y gorau o nodweddion cynaliadwy, gan gynnwys ennill achrediad “Ardderchog” BREEAM.

117. Ers 2006-07 bu'n rhaid i bob prosiect i adeiladu ysgol newydd ennill achrediad ‘Ardderchog’ BREEAM ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgorffori nodweddion cynaliadwyedd/effeithlonrwydd ynni mewn prosiectau adeiladu newydd a phrosiectau adnewyddu sylweddol, h.y. ailgylchu dŵr llwyd, systemau gwresogi biomas a systemau sy'n codi gwres o'r ddaear yn ogystal â phaneli solar a ffotofoltäig.

118. Mae angen i waith cynllunio Ysgolion yr 21ain Ganrif fod yn ddigon cadarn i sicrhau bod pob adeilad newydd a phob adeilad a adnewyddwyd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda fel na fydd manteision buddsoddiadau cyfalaf yn lleihau. Rydym yn gobeithio cyhoeddi canllawiau ar sut i adeiladu amgylchedd ysgol cynaliadwy er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyrraedd safon ysgol yn yr 21ain Ganrif.

119. Mae angen i adeiladau newydd yn y Sector Addysg Bellach ennill achrediad “Ardderchog” BREEAM hefyd. Rydym yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i gynnal astudiaeth ddichonoldeb er mwyn nodi a ellir gosod system Mesur Monitro a Thargedu Uwch ym mhob Coleg AB yng Nghymru.

**Sgiliau a Dysgu uwch**

120. Mae'r Adran wedi datblygu'r Gronfa Blaenoriaethau Sector Beilot sy'n cael arian Cydgyfeirio ac sy'n galluogi Cynghorau Sgiliau Sector i ddatblygu cynigion prosiect i fynd i'r afael â gwendidau neu fylchau ymddangosiadol yn y farchnad ddysgu mewn perthynas ag anghenion eu sector. Rydym wedi dod â'r Cynghorau Sgiliau Sector hynny sy'n cwmpasu'r sgiliau/galwedigaethau carbon isel at ei gilydd i'w hannog i gydweithio ar gynnig partneriaeth.

121. Mae'r cynnig, a ddatblygir gan y Cynghorau Sgiliau Sector, yn ceisio canolbwyntio ar feithrin y gallu i gyflawni yn y sector AB drwy greu Hyrwyddwyr Dysgu, y bydd ganddynt y wybodaeth a'r profiad diweddaraf o'r technolegau a'r cynhyrchion microgynhyrchu diweddaraf drwy raglen o leoliadau diwydiant ac ymweliadau â gweithgynhyrchwyr.

122. Mae angen i Gynghorau Sgiliau Sector chwarae rôl ganolog wrth sicrhau bod cyfleoedd dysgu yn diwallu anghenion busnes. Bydd y prosiect hefyd yn canolbwyntio ar weithgareddau peilot sy'n hyrwyddo datblygu swyddi newydd e.e. cynghorwyr ynni, aseswyr ynni, ac ar dreialu cynllun i gyflwyno fframwaith dysgu newydd i brentisiaid y bwriedir iddo ddiwallu anghenion y sector Ynni Gwynt ar y Tir. Bydd hefyd yn ceisio ychwanegu gwerth at lwybrau dysgu traddodiadol yn y sector

gwasanaethau adeiladu e.e. fframweithiau prentisiaeth mewn plymio, gwresogi ac awyru, drwy dreialu modiwlau technoleg werdd “ychwanegol” ar gyfer y rhai sydd wedi cyflawni prentisiaethau a'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni Llwybrau i Brentisiaethau

123. Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys elfen ymchwil a fydd yn casglu data ar y ddarpariaeth ddysgu bresennol o ran sgiliau carbon isel ledled Cymru, y bydd modd ei goladu wedyn, gobeithio, i lunio cyfeirlyfr darpariaeth a'i ddarparu i'r cyhoedd drwy'r “porth” technolegau adeiladu cynaliadwy ar y we, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

124. Mae'r Adran yn buddsoddi mewn menter hyfforddi Arweinwyr a Rheolwyr estynedig a fydd yn gyfle i gyflwyno “arfer gorau” ym maes rheoli i oruchwylwyr a rheolwyr busnes drwy raglen o fodiwlau rheoli y gellir eu teilwra i ddiwallu anghenion y busnes. Mae Cynghorau Sgiliau Sector yn cael eu hannog i hyrwyddo'r cyfleoedd dysgu i fusnesau o fewn “ôl troed” eu sector a all nodi anghenion hyfforddi nas diwallwyd o ran lleihau carbon e.e. rheoli costau ynni.

125. Mae'r Adran hefyd yn ceisio cysylltu gwaith y Grŵp Cymru Carbon Isel drwy Fforwm Amgylchedd Adeiledig Cymru i gefnogi is-grŵp sgiliau arfaethedig a fydd yn canolbwyntio ar anghenion sgiliau busnesau o fewn yr amgylchedd adeiledig yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn ystyried effaith safonau effeithlonrwydd ynni llymach ar y sector a fydd yn rhan o'r Rheoliadau Adeiladu a ddatganolwyd yn ddiweddar.

**Jane Davidson, AC**
**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

**Rhagfyr 2009**